| Crynodeb o dulliau<br><br>**Archwilio'r perthnasoedd a'r llwybrau sy'n cysylltu addysg ag iechyd, lles a thegwch** | |
|---|---|
| **Awduron:** Cathrine Winding (CW), Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus<br>Christian Heathcote-Elliott (CHE), Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Dr Ciarán Humphreys (CH), Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus | |
| **Dyddiad:** 15/05/2023 | **Fersiwn:** V1 |
| **Cyhoeddi/ Dosbarthu:**<br>• Mewnol/allanol<br>*ISBN: 978-1-83766-286-9* | |
| **Diben y Ddogfen a Chrynodeb Ohoni:**<br><br>Amlinellu'r ymagwedd a ddefnyddiwyd i amlygu llenyddiaeth gyhoeddedig a llenyddiaeth lwyd ynglŷn â'r llwybrau sy'n cysylltu cyrhaeddiad addysgol ac iechyd, tegwch iechyd a lles. | |

# 1 Disgrifiad o’r gwaith

## 1.1 Cefndir

Mae’r adolygiad hwn o lenyddiaeth yn un o dri darn o waith cefndir sy’n cael eu gwneud a fydd yn ategu’r broses o gydgynhyrchu map systemau o’r ffactorau sy’n effeithio ar y bwlch cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru a map systemau ymyrraeth bolisi. Bydd y mapiau hyn, ynghyd â’r gwaith cefndir, yn galluogi’r Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd a rhanddeiliaid i amlygu pwyntiau ysgogi a meysydd gwaith i ganolbwyntio arnynt ym Mlwyddyn 2.

## 1.2 Nodau

Nod yr adolygiad o lenyddiaeth yw:

i) Cael dealltwriaeth well o’r dulliau a’r llwybrau sy’n cysylltu addysg â chanlyniadau iechyd, lles a thegwch, yn ogystal ag archwilio rôl cyrhaeddiad yn y berthynas rhwng addysg ac iechyd.
ii) Archwilio cryfder a chadernid y dystiolaeth sy’n cefnogi’r perthnasoedd hyn. Mae amryw fframweithiau a modelau wedi cael eu datblygu dros y blynyddoedd i esbonio a mapio’r berthynas hon, ac
iii) Edrych ar rai o’r dadleuon a’r meysydd ansicrwydd, yn ogystal â chyfyngiadau, a amlygwyd yn y llenyddiaeth.

## 1.3 Cwestiynau ymchwil

- Sut mae addysg yn effeithio ar ganlyniadau iechyd, lles a thegwch?
- Ym mha wahanol ddulliau a llwybrau y mae addysg a chyrhaeddiad yn cael effaith ar ganlyniadau iechyd, lles a thegwch/anghydraddoldeb?
- Beth yw natur y dystiolaeth ar gyfer y llwybrau?

## 1.4 Amcanion

Amcanion yr adolygiad o lenyddiaeth yw:

a) Amlygu llenyddiaeth berthnasol trwy adolygiad o lenyddiaeth
b) Archwilio tystiolaeth ynglŷn â sut mae addysg yn effeithio ar ganlyniadau iechyd, lles a thegwch (y llwybrau a’r dulliau)
c) Crynhoi’r canfyddiadau a thrafod eu perthnasedd i gyd-destun Cymru, gan gynnwys unrhyw feysydd ansicrwydd
ch) Datblygu tabl echdynnu data

# 2 Cwmpas

Roedd yr adolygiad o lenyddiaeth yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng addysg ac iechyd. Nid oedd llenyddiaeth a oedd yn canolbwyntio ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd (lle mae addysg yn un o sawl penderfynydd a archwiliwyd yn unig) o fewn y cwmpas. I ddechrau, dim ond addysg orfodol oedd yn mynd i gael ei hystyried, ond roedd y rhan

fwyaf o astudiaethau'n cynnwys addysg uwch yn eu gwaith ymchwil, felly cynhwyswyd hyn hefyd. Nid oedd dysgu gydol oes o fewn y cwmpas.

# 3 Yr ymagwedd

## 3.1 Amlygu llenyddiaeth

### 3.1.1 Strategaeth chwilio

Cynhaliwyd y chwiliadau llenyddiaeth lwyd a Google Scholar ym mis Mai 2022 a chynhaliwyd y chwiliad cronfa ddata ar ddechrau mis Mehefin 2022.

I ddechrau, chwiliwyd ffynonellau llenyddiaeth lwyd ar gyfer ystod o gyfuniadau o'r termau chwilio. Ni arweiniodd y chwiliadau at lawer o adroddiadau ar lwybrau, modelau na fframweithiau cysyniadol, ond yn hytrach rhywfaint o dystiolaeth o'r berthynas rhwng addysg ac iechyd.

O ganlyniad i natur y ffynonellau, chwiliwyd tudalennau pwnc penodol am lenyddiaeth berthnasol ar rai gwefannau (e.e. tudalennau pwnc 'addysg' ac 'iechyd'). Penderfynwyd peidio â darllen y llyfrau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) o ganlyniad i hyd a swm y deunydd a oedd ar gael, ac yn hytrach chwilio trwy eu papurau gweithio a phenodau penodol.

O ganlyniad i nifer y canlyniadau a gafwyd o chwiliadau Google Scholar, penderfynodd yr awduron adolygu'r 10 tudalen gyntaf o ganlyniadau. Cynhaliwyd pedwar chwiliad Google Scholar, ac erbyn y pedwerydd chwiliad teimlwyd bod dirlawnbwynt wedi'i gyrraedd gan nad oedd unrhyw lenyddiaeth newydd na pherthnasol yn ymddangos.

Yn yr un modd, arweiniodd rhai chwiliadau ar gronfeydd data at swm mawr o lenyddiaeth, ac felly penderfynwyd adolygu'r 100 o ganlyniadau cyntaf. Mae chwiliadau MEDLINE wedi'u harbed fel ffeiliau PDF.

### 3.1.2 Termau chwilio

- Addysg; cyrhaeddiad addysgol; statws addysgol; cyflawniad academaidd;
- AC iechyd; statws iechyd; canlyniadau iechyd; lles; anghydraddoldeb/au iechyd; annhegwch iechyd; cydraddoldeb/au iechyd; tegwch iechyd;
- A pherthynas achosol; perthynas; fframwaith; fframwaith cysyniadol; llwybrau; dulliau

### 3.1.3 Ffynonellau gwybodaeth a chronfeydd data allweddol

- Cronfeydd data llenyddiaeth academaidd gyhoeddedig a heb ei chyhoeddi: Google Scholar, MEDLINE, APA PsychInfo, ERIC (Canolfan Wybodaeth Adnoddau Addysg)
- Melinau trafod, elusennau a sefydliadau/canolfannau ymchwil: y Sefydliad Polisi Addysg, y Sefydliad Gwaddol Addysgol, y Sefydliad Iechyd, y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, Sefydliad Nuffield, yr OECD,
- Ffynonellau'r llywodraeth: y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sefydliad Iechyd y Byd, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig

### 3.1.4 Meini prawf cynnwys ac eithrio

| Thema | Meini prawf cynnwys | Meini prawf eithrio |
|---|---|---|
| Mesur | • Fframwaith, model neu ddamcaniaeth sy'n cysylltu addysg ag iechyd, a ddatblygwyd o sylfaen dystiolaeth<br>• Tystiolaeth o berthynas neu lwybr<br>• Addysg yn yr ysgol/ystafell ddosbarth | • Fframwaith, model neu ddamcaniaeth nad yw wedi'i seilio ar dystiolaeth<br>• Addysg feddygol ac iechyd benodol (e.e. addysg rhyw, addysg sy'n gysylltiedig â chleifion) |
| Canlyniadau | • Canlyniadau iechyd, lles, tegwch/anghydraddoldeb (ar ôl addysg) | • Canlyniadau iechyd, lles a thegwch iechyd mewn plant (yn ystod addysg) |
| Grwpiau demograffig | • Pobl ifanc ac oedolion (18 oed a hŷn), rhywedd, cenedligrwydd/ethnigrwydd | • Plant (17 oed ac iau)<br>• Grwpiau penodol o oedolion (e.e. nyrsys, cleifion strôc ac ati) |
| Lleoliad daearyddol | • Y Deyrnas Unedig, gwledydd yr OECD, gwledydd yr Undeb Ewropeaidd (EU-27) | • Gwledydd nad ydynt yn perthyn i'r OECD na'r EU-27 |
| Iaith | • Cymraeg a Saesneg | • Ymchwil mewn unrhyw iaith arall |
| Cyfnod dan sylw | • Llenyddiaeth o'r 20 mlynedd diwethaf (2002-2022) | • Cyn 2002 |
| Mathau o gyhoeddiad | • Erthyglau cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid<br>• Papurau trafod, papurau gweithio, briffiau materion<br>• Llenyddiaeth lwyd | • Erthyglau golygyddol/ erthyglau papurau newyddion/ datganiadau i'r wasg/ blogiau<br>• Ffeithluniau<br>• Llyfrau (gan gynnwys penodau)<br>• Canllawiau<br>• Traethodau hir gradd Meistr/PhD<br>• Llawysgrifau awduron |

### 3.1.5 Canlyniadau

Canfuwyd saith deg wyth o ffynonellau llenyddiaeth i gyd. Amlygwyd wyth adroddiad llenyddiaeth lwyd, canfuwyd 37 o adroddiadau o chwiliadau cronfa ddata, 20 o Google Scholar a 13 o gwmpasu blaenorol, argymhellion gan gydweithwyr a rhestrau cyfeirio o lenyddiaeth ganfyddedig.

Ar ôl dileu erthyglau nad oedd gennym fynediad atynt ac erthyglau dyblyg, cynhwyswyd 55 o ffynonellau.

Ar ôl asesu ymhellach ar gyfer cymhwysedd a thrafod gyda chydweithwyr, eithriwyd 24 o bapurau eraill o ganlyniad i oedran y cyfranogwyr, cymharu rhwng gwledydd sy'n datblygu a gwledydd datblygedig, a'r ffaith nad oedd y papur yn canolbwyntio ar addysg yn benodol. Roedd y rhestr derfynol o lenyddiaeth yn cynnwys 31 o bapurau.

### 3.2 Arfarnu'r llenyddiaeth

O ganlyniad i natur yr adolygiad o lenyddiaeth, ni chynhaliwyd arfarniad beirniadol ffurfiol. Ystyriwyd rhai meini prawf ansawdd ar gyfer y tabl echdynnu data, ond nid oedd hyn yn gynhwysfawr.

### 3.3 Allbynnau

- Trafodaeth naratif ynglŷn â'r llenyddiaeth bresennol
- Delweddau/diagramau allweddol o'r llwybrau a'r perthnasoedd rhwng addysg a chanlyniadau iechyd a lles
- Tabl echdynnu data

## 4 Sicrhau ansawdd

Cysylltwyd â Gwasanaeth Tystiolaeth Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu i amlygu llenyddiaeth lwyd berthnasol a thrafod yr ymagwedd at ddod o hyd i ffynonellau llenyddiaeth.

Trafodwyd cymhwysedd llenyddiaeth gyda chydweithwyr.

Adolygwyd adroddiad terfynol yr adolygiad o lenyddiaeth gan AP, CHE, CH.